Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain

Adrodd i'r Cyfarfod Llawn: Gorffennaf 2001 - Gorffennaf 2002

Cyflwyniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y De-ddwyrain yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad Cenedlaethol. Ardal ddaearyddol y Pwyllgor, fel a nodir yn Rheol Sefydlog 10.1, yw Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen a Bro Morgannwg.

2. Yn ystod ei drydedd flwyddyn, rhoddwyd swydd y Cadeirydd i'r Blaid Geidwadol, yn unol â'r cytundeb rhwng y grwpiau gwleidyddol. Etholwyd Jonathan Morgan yn Gadeirydd.

3. Aelodau eraill y Pwyllgor yw Peter Black, Lorraine Barrett, Rosemary Butler, Alun Cairns, Christine Chapman, Jane Davidson, David Davies, Geraint Davies, Janet Davies, Jocelyn Davies, Ron Davies, Sue Essex, Michael German, William Graham, Janice Gregory, John Griffiths, Brian Hancock, Jane Hutt, Pauline Jarman, Carwyn Jones, Peter Law, Huw Lewis, Dai Lloyd, David Melding, Rhodri Morgan, Lynne Neagle, Jenny Randerson, Owen John Thomas a Phil Williams.

Cylch gwaith a dull o weithio

4. Rôl y pwyllgorau rhanbarth, fel y'i diffinnir gan Reol Sefydlog 10.2, yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, ar effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny ac ar waith cyrff cyhoeddus yno.

5. Ac eithrio rhai gwelliannau, mae'r Pwyllgor wedi parhau â'r arferion gwaith a sefydlwyd yn ystod ei ddwy flynedd gyntaf. Yn arbennig, mae wedi gweithio fel pwyllgor unigol sy'n rhoi sylw i'r holl ranbarth, gan bennu "thema" ar gyfer pob un o'i gyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor yn parhau i roi pwyslais mawr ar gyfraniad y cyhoedd mewn cyfarfodydd. Mae cyfarfodydd yn dechrau gyda sesiwn 'meicroffon agored' fel yr eitem gyntaf ar yr agenda, a gall y cyhoedd ofyn cwestiynau yn ystod gweddill y cyfarfod. Pryd bynnag y bydd yn briodol, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn ateb ysgrifenedig i'w cwestiynau oddi wrth yr Aelod Cynulliad perthnasol.

6. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Aberdâr, Ystrad Rhondda, y Rhws a'r Coed Duon. Mae nifer y cyhoedd sy'n bresennol yn parhau i gynyddu o 50 ar gyfartaledd yn 2000-2001 i fwy na 70 eleni.

7. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ddatblygu'i gysylltiadau â phartneriaid allweddol yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat yn y rhanbarth. Dangosir y prif gyrff a wahoddwyd i gwrdd â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

Crynodeb o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd

8. Dyma grynodeb o gyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd yn 2000-01:

Dyddiad	**Lleoliad**	**Testun**
2 Tachwedd 2001	Pen-y-bont ar Ogwr	Ystyriodd y Pwyllgor strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Pobl Hyn Cymru. Gwrandawodd ar gyflwyniadau gan y dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a nifer o gyrff lleol sydd â diddordeb yn y pwnc. Roedd dros 120 o'r cyhoedd yn bresennol
7 Rhagfyr 2001	Brynbuga	Ystyriodd y Pwyllgor Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg. Gwrandawodd ar gyflwyniadau'r rheini sydd â diddordeb o'r byd busnes, addysg a'r cyfryngau a nododd safbwyntiau'r cyhoedd. Cafodd cofnodion y cyfarfod eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Diwylliant fel rhan o'i ymgynghoriad ar yr adolygiad.
1 Chwefror 2002	Aberdâr	Thema'r cyfarfod hwn oedd Datblygu Economaidd Rhanbarthol. Cafwyd cyflwyniadau gan Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, ELWa, Fforwm Economaidd De-ddwyrain Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
8 Mawrth 2002	Ystrad Rhondda	Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Comisiwn Hawliau Anabledd, a chafwyd cyfraniadau gan Anabledd Cymru, Celfyddydau Anabledd Cymru a chynrychiolwyr lleol o MENCAP, SCOVA, Cyngor Cymru i'r Deillion a Cynghrair

		Pobl Anabl Rhondda Cynon Taf. Gwrandawodd y Pwyllgor hefyd ar gyfraniadau gan y gynulleidfa.
17 Mai 2002	Y Rhws	Ystyriodd y Pwyllgor Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Thrafnidiaeth Ranbarthol. Cafwyd cyflwyniadau ar ran Grwp Llywio Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd o dan Gadeiryddiaeth Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Bro Morgannwg. Ar y materion trafnidiaeth mwy cyffredinol, cyfrannodd Fforwm Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a'r Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr. Cafwyd dadl fywiog ar y ddau bwnc a chyfraniadau gan y cyhoedd.
21 Mehefin 2002	Y Coed Duon	Trefnwyd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor er mwyn gallu ymgynghori ar adolygiad polisi'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar ynni adnewyddadwy ac ymateb iddo. Cyflwynodd Dr. Phil Williams AC yr adroddiad ar ran y Pwyllgor. Cyfrannodd aelodau eraill o'r pwyllgor hefyd at y drafodaeth. Bu cynrychiolwyr o'r diwydiannau ynni gwynt a bio-mas, Cyfeillion y Ddaear, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ac unigolion a chyrff eraill yn mynegi barn hefyd. Cyfeiriwyd cofnodion y pwyllgor at Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd i'w hystyried gyda'r ymatebion eraill i'r Ymgynghoriad.

Y flaenraglen waith

9. Bydd y Cadeirydd newydd, drwy ymgynghori â'r Aelodau, yn datblygu'r flaenraglen waith i sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i ddarparu cyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chymunedau lleol yn y rhanbarth.